

Chwarae Cymru
Play Wales



Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae – trosolwg

www.chwarae.cymru

Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae. Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn ffurfio sail i bob agwedd o waith gweithwyr chwarae. Maent yn diffinio'r agwedd gwaith chwarae ac yn darparu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn mae gweithwyr chwarae yn ei wneud.

Maent hefyd yn disgrifio'r hyn sy'n arbennig ac yn unigryw am chwarae (Egwyddorion 1 a 2). Maent yn rhoi diffiniad ymarferol o chwarae a pham ei fod yn wahanol i ymddygiadau eraill. Maent hefyd yn disgrifio'r agwedd a'r safbwynt gwaith chwarae pan yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc (Egwyddorion 3 i 8).

Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae wedi eu seilio ar y gydnabyddiaeth y caiff gallu plant a phobl ifanc i ddatblygu'n gadarnhaol ei gyfoethogi o dderbyn mynediad i'r ystod ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae.

Mae'n hanfodol bod gweithwyr chwarae yn rhannu dealltwriaeth cyffredin fel eu bod yn gallu adnabod a disgrifio ymddygiad chwarae a phenderfynu sut i ymateb. Mae'r agwedd gyffredin neu'r safbwynt hon yn helpu i ddweud beth yw'r proffesiwn gwaith chwarae a'r hyn y mae'n ei wneud.

Ai dim ond rheolau yw egwyddorion?

Er bod rhai elfennau tebyg, nid yw egwyddorion yn reolau. Weithiau caiff egwyddorion eu disgrifio fel athroniaeth neu ethos, ac yn yr achos hwn maent yn delio â'r credau a'r arferion gwaith sy'n gwneud gwaith chwarae'n wahanol i broffesiynau eraill.

Hanes

Cyn dyfodiad yr Egwyddorion Gwaith Chwarae roedd gennym y Tybiaethau a'r Gwerthoedd ar gyfer Gwaith Chwarae, a ddatblygwyd yn ystod drafftio'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gwaith Chwarae (NVQs) ar ddechrau'r 1990au. Yn ystod adolygiad 2002 o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae ar lefel 2, cyfeiriodd gweithwyr chwarae oedd yn rhan o'r ymgynghoriad at y ffaith bod angen eu hadolygu.

Yn y cyfamser yng Nghymru, fe wnaethom sylweddoli nad oedd yr hyn oedd yn cael ei ddweud yn *Yr Hawl Cyntaf ... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae*¹ yn cydweddu'n dda iawn gyda'r Tybiaethau a'r Gwerthoedd Gwaith Chwarae. Ar ddiwedd 2002, ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Chwarae Cymru i arwain adolygiad ac ymgynghoriad trwy'r DU ar y Tybiaethau a'r Gwerthoedd Gwaith Chwarae, a chytunodd mudiadau chwarae a gwaith chwarae pennaf y DU i gyfrannu at y broses.

Cafwyd tri cham ymgynghori gyda gweithwyr chwarae ac eraill oedd â diddordeb. Recriwtiwyd grŵp craffu o weithwyr chwarae a hyfforddwyd gwaith chwarae profiadol o bob cwr o'r DU i fod yn gyfryngwyr gonest, i ddarllen yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac i oruchwyllo'r ymgynghoriadau a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Egwyddorion.

Roedd y grŵp yn gyfrifol am ddarllen yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac adolygu'r cynigion er mwyn lleisio barn y mwyafrif yn y modd gorau.

Cytunwyd bod yr Egwyddorion Gwaith Chwarae yn addas i'w defnyddio ac yn dilyn hynny fe'u cymeradwywyd gan SkillsActive (y Cyngor Sgiliau Sector dros Waith Chwarae) yn 2005.

Perchenogaeth

Nid yw'r Egwyddorion Gwaith Chwarae wedi eu torri ar faen ac nid ydynt yn berchen i fudiad neu berson penodol – maent yn berchen i bob gweithiwr chwarae, i'r profesiwn cyfan. Caiff Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedolaeth i broffesiwn

gwaith chwarae'r DU gan y Grŵp Craffu. Maent yn cynrychioli credau pobl ym maes gwaith chwarae a gellir eu newid (trwy ymgynghoriaeth) os y bydd digon ohonom yn teimlo eu bod wedi dyddio neu ddim yn cwrdd â'n anghenion.

Materion Ilog

Mae un mater Ilog a godwyd yn ymwneud â chyfleoedd cyfartal a'r ffaith nad ydynt yn cyfeirio yn benodol at blant anabl.

'Dyw hyn ddim yn golygu na chawsant eu hystyried wrth i'r Egwyddorion gael eu hysgrifennu neu y cyfeirir atynt o fewn gwahanol set o Egwyddorion. I'r gwrthwyneb, treuliyd llawer o amser yn ystyried materion gwahaniaethu. Ble fo'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n cyfeirio at blant a phobl ifanc, maent yn golygu **pob** plentyn a pherson ifanc waeth beth fo'u diwylliant, eu nam, eu rhyw, eu hiaith, eu cefndir, eu hymddygiad neu eu anghenion.

Mae'r Egwyddorion i gyd yn berthnasol i bob plentyn ac i bob gweithiwr chwarae. Allwn ni ddim dewis a dethol – maent yn bodoli fel corff o gredau gaiff eu gweithredu gyda'i gilydd.



Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae

1. Mae pob plentyn a pherson ifanc angen chwarae. Mae'r awydd i chwarae'n un greddfoll. Mae chwarae'n angenrhaidd biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i ddatblygiad iach a lles unigolyn a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Hynny yw, y plant a'r bobl ifanc fydd yn penderfynnu a rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae, trwy ddilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif ffocws a hanfod gwaith chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae a dylai hyn hysbysu datblygiad polisi chwarae, strategaeth, hyfforddiant ac addysg.
4. I weithwyr chwarae, y broses chwarae fydd flaenaf a bydd gweithwyr chwarae'n gweithredu fel eiriolwyr dros chwarae pan yn ymwneud ag agendâu gaiff eu harwain gan oedolion.
5. Rôl y gweithwyr chwarae yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu gofod ble y gallant chwarae.
6. Caiff ymateb gweithwyr chwarae i chwarae plant a phobl ifanc ei seilio ar wybodaeth gyfredol, gref o'r broses chwarae, ac arfer myfyriol.
7. Mae gweithwyr chwarae'n cydnabod eu effaith eu hunain ar y gofod chwarae yn ogystal ag effaith chwarae plant a phobl ifanc ar y gweithwyr chwarae.
8. Bydd gweithwyr chwarae'n dewis arddull ymyrryd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. Dylai ymyrraeth gweithwyr chwarae bob amser daro cydbwysedd rhwng y risg â'r budd datblygiadol a lles plant.



Etheg a gwaith chwarae

Mae'r term etheg wedi tyfu i olygu 'rheol ymddygiad; côd moesegol; gwerthoedd, egwyddorion neu safonau moesol.' Mae etheg yn cyfeirio at foesoldeb – yr ymdeimlad o'r hyn sy'n 'iawn' ac yn 'anghywir'. O ran gwaith chwarae, mae egwyddorion yn ganllaw moesol i'r berthynas rhwng y gweithwyr chwarae ac eraill. Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae yw etheg a chanllaw moesol y proffesiwn gwaith chwarae, ond wrth gwrs nid dyma'r unig etheg allai ddylanwadu ar yr hyn y byddwn yn ei wneud yn ein bywyd.

Dyma enghreifftiau o'r tri prif fath o etheg:

- **Etheg personol** – 'Rwy'n gwneud hyn gan fy mod yn credu mai dyma'r peth iawn (cywir) i'w wneud.'
- **Etheg proffesiynol** – 'Rwy'n gwneud hyn gan fy mod yn credu ei fod yn ddyletswydd arnaf.'
- **Etheg byd-eang** – 'Rwy'n gwneud hyn gan fy mod yn credu y bydd yn arwain at fyd gwell.'

'I weithwyr chwarae, mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae'. Golyga hyn eu bod yn disgrifio'r agwedd ac yn fframio sut i feddwl am weithio gyda phlant fel gweithwyr chwarae proffesiynol. Fodd bynnag, dylem gydnabod, efallai y bydd gennym set wahanol o etheg y byddwn yn eu defnyddio yn ein bywyd personol.

Mae ein diwylliant, ein profiad gartref a'n magwraeth gymdeithasol i gyd yn dylanwadu ar ein set personol o etheg. Mae'n bwysig i edrych ar yr hyn sy'n hysbysu ein safbwynt moesegol personol oherwydd efallai y bydd yn gwrthdaro â'r safbwynt moesegol proffesiynol y gofynnir inni gytuno ag e' yn y gwaith.

Hefyd, mewn byd ble mae nifer o agendau cystadleuol sy'n cael effaith ar blant, mae natur gwaith chwarae a'i statws proffesiynol cynyddol yn golygu ei bod yn bwysicach nag erioed inni gytuno ar gôd ymarfer ar gyfer gweithwyr chwarae er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau chwarae yn ogystal ag i ddiffinio dyletswydd y person proffesiynol.

Am ragor o wybodaeth am yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ymwelwch â: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/yr-egwyddorion-gwaith-chwarae/

Cyfeiriad

¹ Bob Hughes (2001) *Yr Hawl Cyntaf ... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae*. Caerdydd: Chwarae Cymru.



www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.